



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Gweinyddu nawdd cymdeithasol yng Nghymru

**Tystiolaeth o ddiwygiadau
posibl**

Emma Taylor-Collins a Dan Bristow
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
Ionawr 2020



Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gynorthwyo gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael a defnyddio tystiolaeth annibynnol gadarn ynghylch yr hyn sy'n gweithio. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi i syntheseiddio a chrynhofi tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a chanfod bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadaeth o'r newydd ynglŷn â sut i fynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n gwneud y canlynol:

- Helpu Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisi, yn ogystal â chael gafael ar dystiolaeth ac arbenigedd o'r fath a'i defnyddio;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gael gafael ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol allweddol, yn ogystal â chynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth o'r fath; a
- Defnyddio'i waith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o'r ffordd y gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaeth llunio a gweithredu polisi.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i wella gallu ymchwilwyr i wneud gwaith ymchwil effeithiol sy'n berthnasol i bolisi.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn www.wcppp.org.uk

Arianwyr Craidd



Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae'r Brifysgol yn sefydliad uchelgeisiol ac arloesol sy'n awyddus i feithrin cydberthnasau rhyngwladol cryf a dangos ei hymrwymiad i Gymru.



Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o UK Research and Innovation, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i sicrhau bod pob cyngor yn cyfrannu cymaint â phosib ac i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer datblygu ymchwil ac arloesedd.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg,

llywodraeth leol a'r amgylchedd.

Yn ddatganoledig yng Nghymru: Tystiolaeth o ddiwygiadau posibl

Cynnwys

Crynodeb	4
Cyflwyniad	5
Nawdd Cymdeithasol yn y DU	6
'Gweinyddu' o'i gymharu â 'polisi'	7
Cwestiynau allweddol ynghylch datganoli gweinyddu nawdd cymdeithasol yng Nghymru	8
1. Pa ganlyniadau a fwriedir wrth ddatganoli gweinyddu nawdd cymdeithasol?	8
2. Pa agweddau ar y trefniadau presennol ar gyfer gweinyddu nawdd cymdeithasol sy'n ein hatal rhag cyflawni'r amcanion hyn?	10
3. Sut y gellid newid yr agweddau hynny ar nawdd cymdeithasol er mwyn cyflawni'r amcanion hyn?	11
4. Beth yw goblygiadau cyfreithiol ac ariannol y newidiadau y byddai angen eu gwneud a pha ffactorau eraill y byddai angen eu hystyried?	15
Casgliadau	20
Cydnabyddiaeth	21
Cyfeiriadau	22

Crynodeb

- Mae'r nodyn hwn yn rhoi crynodeb o'n canfyddiadau yn dilyn adolygiad cyflym o dystiolaeth a barn arbenigwyr mewn cysylltiad â datganoli gweinyddu nawdd cymdeithasol yng Nghymru, ar ran Llywodraeth Cymru.
- Wrth archwilio'r dystiolaeth rydym wedi awgrymu y dylai unrhyw asesiad o fanteision a risgiau posibl datganoli gweinyddu nawdd cymdeithasol roi sylw i bedwar cwestiwn allweddol, sef:
 - Pa ganlyniadau a fwriedir wrth ddatganoli gweinyddu nawdd cymdeithasol?
 - Pa agweddau ar y trefniadau presennol ar gyfer gweinyddu nawdd cymdeithasol sy'n ein hatal rhag cyflawni'r amcanion hyn?
 - Sut y gellid newid yr agweddau hynny ar nawdd cymdeithasol er mwyn cyflawni'r amcanion hyn?
 - Beth yw goblygiadau cyfreithiol ac ariannol y newidiadau y byddai angen eu gwneud a pha ffactorau eraill y byddai angen eu hystyried?
- Mae'r gwahaniaeth rhwng polisi a gweinyddu nawdd cymdeithasol yn amwys, ac nid yw'n sail ddefnyddiol iawn ar gyfer archwilio manteision a risgiau posibl o ran datganoli pellach. Yn anad dim, mae hyn oherwydd bod agweddau ar yr hyn y gellid ei alw'n weinyddu wedi'u corffori mewn deddfwriaeth sylfaenol.
- Byddem yn dadlau felly mai'r cam cyntaf fyddai diffinio'r canlyniadau rydym yn dymuno eu cael drwy newid y system bresennol.
- Wrth wneud hyn, byddai wedyn yn bosibl trin a thrafod ym mha ffordd y mae angen i'r system bresennol newid, a dechrau llunio dewisiadau y gellir eu dadansoddi yn fwy manwl.
- Rydym wedi canfod sawl model gwahanol ar gyfer addasu neu ddiwygio'r system nawdd cymdeithasol bresennol y gellid eu defnyddio fel sail ar gyfer syniadau yng Nghymru. Mae bob un yn ceisio cyflawni nodau gwahanol sy'n golygu y byddai gan bob un ohonynt oblygiadau gwahanol o safbwynt y setliad datganoli.
- Mae ein gwaith hyd yma yn dangos bod llawer i'w ddysgu o brofiad ehangach, yn enwedig datblygiadau yn yr Alban a Manceinion Fwyaf.
- Gobeithio y bydd y dadansoddiad cychwynnol hwn yn fuddiol o ran llywio trafodaethau pellach ynghylch mwy o ddadansoddi a thystiolaeth ychwanegol yng nghyswllt datganoli gweinyddu nawdd cymdeithasol yng Nghymru.

Cyflwyniad

Mae'r Prif Weinidog wedi gofyn i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru asesu'r materion y byddai angen eu hystyried er mwyn dod i benderfyniad ynghylch pa mor ddymunol ac ymarferol y byddai datganoli rhai agweddau ar weinyddu nawdd cymdeithasol¹ yng Nghymru. Mae'r nodyn hwn yn rhoi crynodeb o'n canfyddiadau yn dilyn adolygiad cyflym o'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd (er mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth a gyhoeddwyd am y pwnc hwn), cyfarfodydd a gohebiaeth â swyddogion, a sgysiau gyda nifer o arbenigwyr.

Rydym wedi dod i'r casgliad y dylai asesiad o'r manteision a'r risgiau sydd ynghlwm â datganoli gweinyddu nawdd cymdeithasol ymdrin â phedwar mater allweddol, sef:

- 1 Pa ganlyniadau a fwriedir wrth ddatganoli gweinyddu nawdd cymdeithasol?
- 2 Pa agweddau ar y trefniadau presennol ar gyfer gweinyddu nawdd cymdeithasol sy'n ein hatal rhag cyflawni'r amcanion hyn?
- 3 Sut y gellid newid yr agweddau hynny ar nawdd cymdeithasol er mwyn cyflawni'r amcanion hyn?
- 4 Beth yw goblygiadau cyfreithiol ac ariannol y newidiadau y byddai angen eu gwneud a pha ffactorau eraill y byddai angen eu hystyried?

Mae gweddill yr adroddiad hwn yn rhoi cyd-destun y system nawdd cymdeithasol bresennol ledled y DU cyn archwilio'r pedwar cwestiwn dan sylw yn fanwl. Ein gobaith yw y bydd y dadansoddiad cychwynnol hwn yn fuddiol o ran llywio trafodaethau pellach ynghylch mwy o ddadansoddi a thystiolaeth ychwanegol yng nghyswllt datganoli gweinyddu nawdd cymdeithasol yng Nghymru.

Cynhaliwyd yr adroddiad hwn o gwmpas yr un amser ag ymholiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol *Budd-daliadau yng Nghymru: Opsiynau i'w cyflawni'n well* (2019a) ac mae'n defnyddio'r adroddiad hwnnw pan fo hynny'n briodol. Er bod ein hadroddiad yn ymdrin â maes tebyg i waith y Pwyllgor, wrth geisio amlinellu'r ystod o ddulliau posibl y gellid eu defnyddio i ddiwygio'r ffordd mae nawdd cymdeithasol yn cael ei weinyddu yng Nghymru ar hyn o bryd, y gwahaniaeth yw nad yw'n canolbwyntio ar fudd-daliadau penodol ac nid yw'n argymhell pa ddulliau y dylid eu defnyddio.

¹ Mae'r termau 'lles' a 'nawdd cymdeithasol' yn aml yn cael eu defnyddio'n gydgyfnewidiol. Rydym yn defnyddio'r term 'nawdd cymdeithasol' ar gyngor arbenigwyr rydym wedi ymgynghori â nhw. I gael rhagor o wybodaeth am iaith, gweler Lister (2013).

Nawdd cymdeithasol yn y DU

Ym mis Tachwedd 2016², roedd 11.3% o boblogaeth oedran gweithio Cymru yn hawlio budd-daliadau diweithdra, cyfran uwch nag yn Lloegr (8.1%) a'r Alban (10.3%) (Ystadegau Cymru, 2017). Yng Nghymru ar hyn o bryd, mae nawdd cymdeithasol yn fater sydd wedi cael ei gadw yn ôl ar gyfer Llywodraeth y DU, ac eithrio rhai budd-daliadau (sy'n cael eu trafod yn fwy manwl isod o dan 'Beth yw'r goblygiadau cyfreithiol?').

Yng Ngogledd Iwerddon mae nawdd cymdeithasol yn fater sydd wedi cael ei ddatganoli'n llawn. Fodd bynnag, yn ymarferol, mabwysiadwyd dull tebyg i'r un a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU yn gyffredinol oherwydd mae'n rhaid trafod a dod i gytundeb ynghylch unrhyw ddull gwahanol gyda'r Gweinidog â chyfrifoldeb yng Ngogledd Iwerddon ac Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU (Deddf Gogledd Iwerddon 1998, a87), ac oherwydd bod yn rhaid i Ogledd Iwerddon ariannu unrhyw newidiadau. Er enghraifft, oherwydd nad oedd Cynulliad Gogledd Iwerddon wedi pasio deddf gyfatebol i'r Ddeddf Diwygio Lles yn 2012 ar unwaith bu'n rhaid iddo dalu miliynau i Lywodraeth y DU er mwyn cyflenwi'r gwahaniaeth yn y gost o ddarparu nawdd cymdeithasol. Fodd bynnag, ers 2016 mae Gogledd Iwerddon wedi rhoi polisi 'paredd a mwy' ar waith, sef: £501m tuag at 'fesurau lliniaru' ar gyfer agweddau ar ddiwygio lles, a bydd y rhain mewn grym tan fis Mawrth 2020 (yr Adran Cymunedau, 2019a). Trafodir hyn yn fwy manwl isod.

Yn 2014 roedd Comisiwn Silk wedi argymhell y dylai nawdd cymdeithasol barhau i fod yn fater a gedwir yn ôl ar gyfer Llywodraeth y DU oherwydd ei fod yn rhan o 'undeb cymdeithasol' y DU ac oherwydd bod datganoli nawdd cymdeithasol yn cael ei ystyried yn ormod o risg ariannol (Comisiwn Silk, 2014). Ond roedd y Comisiwn hefyd wedi argymhell pe bai nawdd cymdeithasol yn cael ei ddatganoli i'r Alban yn y dyfodol, dylid adolygu'r sefyllfa yng Nghymru.

O dan Ddeddf yr Alban 2016, a Deddf Nawdd Cymdeithasol (Yr Alban) a'i dilynodd yn 2018, datganolwyd rhagor o bwerau i Lywodraeth yr Alban, gan gynnwys cyfrifoldeb dros 11 o fudd-daliadau sydd ddim yn gysylltiedig â Chyfraniadau Yswiriant Gwladol.³ Erbyn hyn hefyd mae gan Lywodraeth yr Alban bwerau i ychwanegu arian at fudd-daliadau a gedwir yn

² Nid yw'r data hyn yn cael eu diweddarau bellach; ystadegau ar gyfer 2016 yw'r rhai diweddaraf sydd ar gael, ac felly nid yw cyflwyno Credyd Cynhwysol wedi cael ei ystyried ynddynt.

³ Sef: Taliad Annibyniaeth Personol a Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini, Lwfans Gofalwr, Taliad Tanwydd Gaeaf, Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, Taliad Tywydd Oer, Lwfans Anabledd Difrifol, Taliad Disgresiwn at Gostau Tai, Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn a Chostau Angladd, yn ogystal â rhai pwerau sy'n gysylltiedig â Chredyd Cynhwysol.

ôl ac i greu budd-daliadau newydd mewn unrhyw faes ac eithrio os oes cysylltiad â materion a gedwir yn ôl y DU, megis cynhaliaeth cynnal plant neu agweddau ar gymorth cyflogaeth sydd wedi'u cadw'n ôl (Senedd yr Alban, 2017: erthyglau 4 a 5). I ddechrau roedd Llywodraeth yr Alban wedi bwriadu dechrau cymryd hawliadau newydd ym mhob un o'r 11 maes budd-daliadau erbyn mis Mai 2021, ond bellach mae hyn wedi cael ei ohirio tan 2024 (Somerville, 28 Chwefror 2019).

Ers datganoli nawdd cymdeithasol yn yr Alban, bu galw o'r newydd am adolygu'r system nawdd cymdeithasol yng Nghymru. Roedd Sefydliad Bevan (2016) wedi argymhell datganoli nifer o fudd-daliadau oedran gweithio ar y sail y byddai hyn yn gwella canlyniadau i bobl Cymru. Mae dadansoddiad gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru yn awgrymu y gallai Trysorlys Cymru elwa'n sylweddol o ddatganoli rhai budd-daliadau penodol (Ifan a Sion, 2019). Yn ddiweddar, cynhaliodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ymholiad i Fudd-daliadau yng Nghymru: Opsionau i'w cyflawni'n well (Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 2019a).

'Gweinyddu' o'i gymharu â 'polisi'

Yn achos nawdd cymdeithasol, nid yw'n hawdd gwahaniaethu rhwng polisi a gweinyddu. Mae elfennau o'r system bresennol y gellid eu hystyried yn 'weinyddu' mewn gwirionedd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth, ac maent yn ganolog i gyflawni amcanion polisi Llywodraeth y DU. Er enghraifft, mae deddfwriaeth yn mynnu bod Credyd Cynhwysol (ac eithrio yng nghyswllt y rheini sy'n gymwys ar gyfer Trefniadau Talu Amgen⁴) yn cael ei dalu'n fisol (Llywodraeth y DU, 2013: adran 47). Y rheswm am hyn yw mai bwriad Credyd Cynhwysol yw 'paratoi hawlwr ar gyfer byd gwaith lle mae 75% o weithwyr yn cael eu talu'n fisol' (Adran Gwaith a Phensiynau, 2019). Oherwydd bod pa mor aml y dylid gwneud taliadau wedi'i ddynodi mewn deddfwriaeth, dim ond drwy weithredu deddfwriaeth newydd yr oedd Llywodraeth yr Alban yn gallu cynnig gwneud taliadau ddwywaith y mis i bawb oedd yn derbyn Credyd Cynhwysol (Llywodraeth yr Alban, 2017), ac nid oedd hyn ond yn bosibl oherwydd bod Llywodraeth yr Alban wedi cael pwerau ychwanegol drwy Ddeddf yr Alban 2016. Felly, mae rhywbeth y gellid ei ystyried yn benderfyniad gweinyddol, sef amseriad taliadau, mewn gwirionedd wedi'i ddynodi mewn polisi yng Nghymru a Lloegr. Felly byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i newid pa mor aml y byddai Credyd Cynhwysol yn cael ei dalu yng Nghymru. Heb ddeddfwriaeth o'r fath, gallai trin dinasyddion yng Nghymru a Lloegr yn wahanol wneud Llywodraeth y DU yn agored i adolygiad barnwrol.

⁴ Mae Trefniadau Talu Amgen ar gael i rai hawlwr penodol y mae angen 'cymorth ychwanegol' arnynt. Mae'r trefniadau'n cynnwys taliadau a wneir yn fwy aml na bob mis, rhannu'r taliad rhwng gwahanol bartneriaid yn y cartref a thalu elfennau tai Credyd Cynhwysol yn uniongyrchol i landlordiaid. (Adran Gwaith a Phensiynau, 2019).

Oherwydd hyn, mae'n debyg y byddai'r gwahaniaeth rhwng polisi a gweinyddu yn cael ei herio ac yn rhan bwysig o unrhyw drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am ddatganoli nawdd cymdeithasol.

Cwestiynau allweddol ynghylch datganoli gweinyddu nawdd cymdeithasol yng Nghymru

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi nodi pedwar mater allweddol yng nghyswllt datganoli gweinyddu rhai agweddau ar y system nawdd cymdeithasol yng Nghymru, sef:

- 1 Pa ganlyniadau a fwriedir wrth ddatganoli gweinyddu nawdd cymdeithasol?
- 2 Pa agweddau ar y trefniadau presennol ar gyfer gweinyddu nawdd cymdeithasol sy'n ein hatal rhag cyflawni'r amcanion hyn?
- 3 Sut y gellid newid yr agweddau hynny ar nawdd cymdeithasol er mwyn cyflawni'r amcanion hyn?
- 4 Beth yw goblygiadau cyfreithiol ac ariannol y newidiadau y byddai angen eu gwneud a pha ffactorau eraill y byddai angen eu hystyried?

1. Pa ganlyniadau a fwriedir wrth ddatganoli gweinyddu nawdd cymdeithasol?

Rydym yn awgrymu mai'r man cychwyn ar gyfer unrhyw asesiad mewn perthynas ag a ddylai gweinyddu nawdd cymdeithasol yng Nghymru gael ei ddatganoli yw nodi'r canlyniadau a ddymunir fel sail ar gyfer unrhyw benderfyniadau ynghylch beth, efallai, fyddai angen ei newid. Dull arall yw pennu rhai egwyddorion sylfaenol a fyddai'n gallu gweithredu fel sail ar gyfer dyluniad neu/a gweithrediad y gwaith o weinyddu nawdd cymdeithasol.

Mae llawer o'r dadleuon diweddar ynghylch nawdd cymdeithasol wedi troi o amgylch effaith y Diwygio Lles a gyflwynwyd o dan Lywodraethau Clymblaid a Cheidwadol y DU (Deddf Diwygio Lles 2012; Deddf Gwaith a Lles 2016). Mae dadansoddiad diweddar o ddiwygiadau a gyhoeddwyd rhwng 2010 a 2018 yn awgrymu y bydd cartrefi yng Nghymru yn colli 1.5%, neu £480 y flwyddyn, o'u hincwm net ar gyfartaledd o ganlyniad iddynt; rhagwelir y bydd y cartrefi hynny â'r incwm isaf ac sydd â phlant (yn enwedig os oes yno dri phlentyn

neu fwy) yn colli cryn dipyn yn fwy na hynny, hyd at £4,110 y flwyddyn (Llywodraeth Cymru, 2019: 9). Gallai'r awydd i liniaru ar effaith y gostyngiad hwn o ran incwm cartrefi ysgogi dull o ddatganoli nawdd cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Gall set o egwyddorion helpu i ddiffinio'r canlyniadau a ddymunir. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dechrau amlinellu rhai egwyddorion craidd y gellid seilio'r gwaith o weinyddu nawdd cymdeithasol yng Nghymru arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys trugaredd, tegwch, parch, urddas a dealltwriaeth, gyda'r nod o fabwysiadu dull mwy dyngarol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd (Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 2019b).

Mae Cyngor ar Bopeth (Hobson, 2019) wedi nodi tair egwyddor y mae'n awgrymu a ddylai fod wrth wraidd unrhyw system nawdd cymdeithasol:

1. System sydd ar gael i bawb sydd ei hangen.
2. Lefel ddigonol o fudd-daliadau sy'n cwmparu costau byw.
3. Hyblygrwydd i helpu pobl i fyw bywydau sy'n gwireddu eu dyheadau, ni waeth be fo'u sefyllfa:
 - a. System syml y gall pawb ei defnyddio'n hawdd.
 - b. System sy'n rhoi sylw i anghenion unigol cymhleth.
 - c. System sy'n gallu ymateb i anghenion lleol ac unigol sy'n newid.

Yn yr Alban, mae Deddf Nawdd Cymdeithasol (Yr Alban) 2018 yn seiliedig ar wyth egwyddor sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol fel hawl ddynol. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u hategu gan 'Ein Siarter' (Social Security Scotland, 2019a), a luniwyd mewn ymgynghoriad â phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o hawlio nawdd cymdeithasol, sefydliadau sy'n helpu neu sy'n cynrychioli pobl sy'n defnyddio nawdd cymdeithasol, a Llywodraeth yr Alban a Nawdd Cymdeithasol yr Alban (yr asiantaeth newydd a sefydlwyd i ddarparu budd-daliadau yn yr Alban).

Yn yr un modd, yng Nghymru mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi bod yn gweithio gyda threthdalwyr, eu cynrychiolwyr, a'r cyhoedd yng Nghymru i lunio 'Ein Siarter' sy'n egluro'r gwerthoedd, y mathau o ymddygiad a'r safonau sy'n llywio ei waith, ac ymysg y gwerthoedd hynny mae tegwch a pharch (Awdurdod Cyllid Cymru, 2018). Gallai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd gynnig fframwaith defnyddiol ar gyfer diffinio egwyddorion a'r canlyniadau a ddymunir yng Nghymru. Gallai gwaith Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a Chwarae Teg yng nghyswllt yr Adolygiad Cydraddoldeb Rhywiol (Parken, 2018; Davies a Furlong, 2019; Taylor-Collins a Nesom, 2019) weithredu fel sail ar gyfer y safbwynt a fynegir yn yr egwyddorion a'r canlyniadau hyn o ran rhywedd.

Fel rhan o'i ymchwiliad i ddatganoli nawdd cymdeithasol yng Nghymru, mae'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wedi argymhell bod set o egwyddorion i ategu 'system fudd-daliadau i Gymru' (sy'n cwmpasu'r holl fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt ar hyn o bryd) yn cael ei lunio ar y cyd â phobl sy'n hawlio nawdd cymdeithasol a'r cyhoedd ehangach yng Nghymru (Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 2019a: 37).

2. Pa agweddau ar y trefniadau presennol ar gyfer gweinyddu nawdd cymdeithasol sy'n ein hatal rhag cyflawni'r amcanion hyn?

Ar ôl diffinio'r canlyniadau a ddymunir, gellir defnyddio'r rhain i ganfod pa agweddau ar y system bresennol sy'n ein hatal rhag eu cyflawni. Bydd hyn yn ymwneud â nodi pa fudd-daliadau sydd o ddiddordeb ac asesu'r dulliau presennol o weinyddu'r budd-daliadau hynny.

Nodi budd-daliadau

Y peth cyntaf y bydd angen i'r broses hon ei wneud yw canfod pa fudd-daliadau y gellid eu gweinyddu'n wahanol a pha rai nad oes modd eu gweinyddu'n wahanol. Yn yr Alban, penderfyniad pragmatig, yn hytrach nag un ideolegol, oedd dewis pa fudd-daliadau i'w datganoli: sef, dim ond y rheini sydd ddim yn gysylltiedig â Chyfraniadau Yswiriant Gwladol sydd wedi cael eu datganoli. Mae'n debygol mae'r rheswm am hyn yw nad yw Cyfraniadau YG – sy'n ariannu rhai buddion penodol megis Pensiwn y Wladwriaeth – wedi cael eu datganoli i'r Alban. Yn hytrach, maent yn cael eu talu i mewn i'r Gronfa Yswiriant Gwladol, sydd, i bob pwrpas, yn cael eu tanysgrifennu gan Gronfa Gyfunol y DU. Felly byddai angen datganoli Cyfraniadau YG i'r Alban er mwyn datganoli'r budd-daliadau sy'n gysylltiedig â nhw hefyd. Drwy wneud hyn, gallai'r Alban fod mewn perygl o golli'r rhwyd diogelwch y mae'r Gronfa Gyfunol yn ei darparu.

Yng Nghymru, mae'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol (2019a: 10) wedi diystyru (ar hyn o bryd) datganoli'r system nawdd cymdeithasol gyfan, Credyd Cynhwysol yn ei gyfanrwydd, a'r holl fudd-daliadau salwch ac anabledd, oherwydd cymhlethdod datganoli o'r fath, y goblygiadau ariannol, a'r risgiau sydd ynghlwm â newid mor fawr i'r system lles.

Mae Sefydliad Bevan (2016) yn awgrymu mabwysiadu rhai egwyddorion allweddol wrth benderfynu pa fudd-daliadau a ddylai gael eu datganoli, sef:

- A yw'r budd-dal yn fudd-dal cylchol (h.y. un sy'n newid gyda'r cylch economaidd);
- A yw'n cyd-fynd yn dda â swyddogaethau datganoledig;

- A yw'n gysylltiedig â lle (h.y. yn adlewyrchu amodau lleol).

Mae'r IPPR yn ychwanegu at hyn ystyriaethau o ran effaith datganoli budd-daliadau ar dwf a pherfformiad economaidd, cyfuno risgiau ledled y DU (a dyna yw ystyr cyfeiriadau at yr 'undeb cymdeithasol' yn ein tyb ni), a'r effaith ar farchnad sengl y DU (Lodge a Trench, 2014: 8).

Ar ben hyn, mae pryder ynghylch y ffaith y gallai'r ffordd y mae rhai budd-daliadau yn cael eu gweinyddu ar hyn o bryd danseilio polisïau Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth yng Nghymru, er enghraifft Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) (Sefydliad Bevan 2018) a chyfrifoldeb Llywodraeth Cymru dros feysydd fel tai. Ar y sail hon, mae Sefydliad Bevan yn dadlau y dylai'r Budd-dâl Tai (sydd bellach yn rhan o'r Credyd Cynhwysol), y rhaglen Gwaith ac Iechyd, a'r cyfrifoldeb dros wasanaethau a budd-daliadau ceiswyr gwaith ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 sy'n ddi-waith gael eu datganoli.

Mae Cyngor ar Bopeth yn casglu data ar y ceisiadau am gyngor mae'n eu cael, a allai hefyd fod yn ffynhonnell dystiolaeth ddefnyddiol o ran penderfynu ar y budd-daliadau sydd o ddiddordeb. Er enghraifft, roedd y ceisiadau mwyaf cyffredin am gyngor a gafodd Cyngor ar Bopeth yn y 12 mis cyn Ebrill 2019 yn ymwneud â Thaliadau Annibyniaeth Personol ac, yn benodol, gwneud a rheoli hawliad ac ymholiadau cysylltiedig â chymhwysedd oedd y testunau mwyaf cyffredin (Cyngor ar Bopeth 2019). Byddai gwneud mwy o waith er mwyn ceisio deall a yw'r ymholiadau hyn yn ymwneud â sut mae Taliadau Annibyniaeth Personol yn cael eu gweinyddu ar hyn o bryd yn gallu amlygu gwelliannau posibl i'r system.

Ffordd arall bosibl o ganfod budd-daliadau y gellid eu datganoli fyddai drwy ganolbwyntio ar y grwpiau y byddai diwygio nawdd cymdeithasol yng Nghymru yn effeithio fwyaf arnynt, sef: y rheini â'r incwm isaf, pobl anabl, rhai grwpiau ethnig penodol a grwpiau sy'n wynebu anfanteision lluosog (Llywodraeth Cymru 2019).

Asesu dulliau presennol

Mae hefyd yn angenrheidiol deall sut mae pob budd-dal unigol sy'n rhan o'r cwmpas yn cael ei weinyddu yng Nghymru ar hyn o bryd cyn pennu unrhyw fodelau gweinyddu newydd posibl. Bydd hyn hefyd o gymorth i weld a yw'r dull presennol o weinyddu rhai o'r budd-daliadau hyn eisoes yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir, neu ai'r dull hwnnw yw'r dewis 'lleiaf gwael' sydd ar gael. Efallai mai'r dull cyfredol yw'r dull gorau sydd ar gael yng nghyswllt rhai budd-daliadau.

3. Sut y gellid newid yr agweddau hynny ar nawdd cymdeithasol er mwyn cyflawni'r amcanion hyn?

Mae sawl dewis posibl o ran diwygio nawdd cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r prif ddewisiadau, fel y gwelwn ni, wedi'u nodi isod gydag enghreifftiau:

- Mabwysiadu dull mwy effeithiol a chyson o weinyddu budd-daliadau;
- Darparu cymorth amgen neu estynedig i bobl;
- Cael mwy o bobl i hawlio budd-daliadau;
- Rhoi hyfforddiant amgen neu estynedig i'r rheini sy'n gweinyddu budd-daliadau;
- Cynnig ychwanegiad at fudd-daliadau sy'n bodoli eisoes;
- Ailgynllunio budd-daliadau sy'n bodoli eisoes neu greu budd-daliadau newydd.

Er mwyn bod yn gydnaws â'r egwyddorion a nodwyd uchod (Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 2019b), gallai bob un o'r diwygiadau hyn olygu system nawdd cymdeithasol sy'n fwy hael na'r un gyfredol, a byddai goblygiadau ariannol yn sgil hynny, fel y trafodir isod yng Nghwestiwn 4.

Bydd angen gwneud mwy o waith er mwyn pennu pa rai o'r newidiadau hyn y gellid eu hystyried yn 'bolisi' a pha rai y gellid eu hystyried yn 'weinyddu' (a goblygiadau cyfreithiol hynny). Trafodir hyn isod yng Nghwestiwn 4.

Bydd angen ystyried unrhyw werthusiad o fodolau amgen ar gyfer gweinyddu nawdd cymdeithasol. Mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i ddweud pa effeithiau mae'r newidiadau y mae Llywodraeth yr Alban wedi'u cyflwyno o dan Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Yr Alban) 2018 wedi'u cael, ond efallai bod tystiolaeth anecdotaidd ar gael.

Mabwysiadu dull mwy effeithiol a chyson o weinyddu budd-daliadau

Mae nifer o fudd-daliadau, fel Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, y Gronfa Cymorth Dewisol, Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai a'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad, eisoes yn cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru neu gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Efallai y byddai'n fuddiol ymchwilio i weld a oes modd gwella'r ffordd y caiff y budd-daliadau hyn eu gweinyddu ar hyn o bryd, er enghraifft, yn nhermau pa mor gyson yw dulliau ar draws awdurdodau lleol gwahanol. Er enghraifft, mae gwaith wedi cael ei wneud o'r blaen gyda chynghorau yng Nghymru a'r Clwb Diwygio Lles i greu 'meini prawf hyblyg ond cadarn sydd wedi arwain at ddyrannu adnoddau prin Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai yn well' (Ghelani 2016).

Mae cyswllt rhwng hyn ag un o'r argymhellion yn ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, sef bod angen creu 'pecyn cydlynol o fudd-daliadau Cymreig' (Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol 2019a: 37). Ar hyn o bryd, mae Sefydliad Bevan yn archwilio'r posibilïadau o ran mater tebyg sy'n ymwneud â chynlluniau cymorth i deuluoedd incwm isel. Mae wedi tynnu sylw at broblemau posibl yng

nghyswllt y dulliau amrywiol sydd ar waith yng Nghymru o ran gweinyddu Prydau Ysgol am Ddim a Mynediad at y Grant Datblygu Disgyblion. Er enghraifft, mae'r Sefydliad wedi canfod mai'r cyngor sy'n darparu Mynediad at y Grant Datblygu Disgyblion yn y mwyafrif o awdurdodau, ond, mewn awdurdodau eraill, yr ysgolion eu hunain sy'n gwneud hyn. Mae hyn yn codi pryderon y gallai problemau godi yn yr awdurdodau hynny lle mae ysgolion yn darparu'r gwasanaeth, pe bai teuluoedd eisiau hawlio'r grant y tu allan i dymhorau'r ysgol er enghraifft (Sefydliad Bevan 2019: 8).

Y tu hwnt i Gymru, mae swyddogion yn Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf (GMCA) yn archwilio'r posibilïadau o ran sut y gallant gynyddu'r pwerau sydd eisoes ar gael er mwyn lliniaru ar agweddau negyddol diwygio lles, er enghraifft, drwy ddarparu cynlluniau lles lleol sy'n fwy effeithiol a chysn ar gyfer dinasyddion ar draws y 10 cyngor lleol sy'n rhan o'r GMCA.

Darparu cymorth amgen neu estynedig i bobl

Gallai darparu cymorth amgen neu estynedig i'r rheini sy'n hawlio budd-daliadau helpu i fynd i'r afael â'r heriau rydym yn eu hwynebu gyda'r system bresennol. Mae sawl esiampl eisoes ar gael yng Nghymru, er enghraifft, y gwasanaethau cymorth mewnol sy'n cael eu darparu gan landlordiaid cymdeithasol i helpu pobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol (Opinion Research Services, 2019: 39), a'r £8.04m y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddyrannu drwy ei Chronfa Gynghori Sengl at ddibenion darparu gwasanaethau cynghori ar nawdd cymdeithasol yn 2020, yn rhannol mewn ymateb i Ddiwygio Lles yn y DU (Hutt, 2019). Ers 2016 buddsoddwyd £8m ychwanegol mewn gwasanaethau cynghori annibynnol yng Ngogledd Iwerddon i gynorthwyo pobl drwy'r broses diwygio lles, gan gynnwys sefydlu Llinell Gymorth Annibynnol ar gyfer Newidiadau i'r System Lles (yr Adran Cymunedau 2019a: 60) a recriwtio cynghorwyr i helpu hawlwr Lwfans Byw i'r Anabl gwblhau hawliadau am Daliadau Annibyniaeth Personol.

Yn ôl ymchwil a gynhaliwyd gan Gyngor ar Bopeth, roedd yn anodd i'r rheini nad oedd yn gallu cael mynediad at gyfrifiadur neu heb sgiliau digidol wneud cais am fudd-daliadau ar-lein (Hobson, 2019), canfyddiad a nodwyd mewn gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau, yng nghyswllt pobl oedd yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol, yn nodi bod bron i un ym mhob tri ymgeisydd yn ei chael yn anodd cofrestru eu hawliad ar-lein (Adran Gwaith a Phensiynau, 2018a: 35). Mae Cyngor ar Bopeth yn argymhell bod y llywodraeth yn ymdrin â'r heriau hyn drwy gyflwyno prosesau symlach a chymorth ychwanegol (Hobson, 2019). Mae rhaglenni yng Nghymru, fel Cymunedau Digidol Cymru, yn ceisio mynd i'r afael â chynhwysiant digidol (Llywodraeth Cymru 2018).

Gallai darparu cymorth amgen neu estynedig hefyd olygu ystyried a fyddai modd i'r cymorth sydd eisoes ar gael i'r rheini sy'n hawlio budd-daliadau gwahanol fod yn fwy cydgysylltiedig er mwyn gwneud y broses yn haws i hawlwr (Shelter Cymru 2013: 33).

Cael mwy o bobl i hawlio budd-daliadau

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn amcangyfrif nad oedd bron i £10bn o'r Credyd Pensiwn, Budd-dâl Tai a Chymhorthdal Incwm/Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm oedd ar gael yn 2016/17 wedi cael ei hawlio (Yr Adran Gwaith a Phensiynau 2018b 3). Gallai diffyg ymwybyddiaeth o fudd-daliadau achosi tan-hawlio, ac felly gallai newid y ffordd y mae budd-daliadau yn cael eu gweinyddu hefyd gynnwys ymgyrchoedd pellach i gynyddu'r niferoedd sy'n eu hawlio. Yn ei ymchwiliad (2019a), mae'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn argymhell cynnal ymgyrch i gynyddu'r niferoedd sy'n hawlio budd-daliadau yng Nghymru.

Darparu hyfforddiant amgen neu estynedig i'r rheini sy'n gweinyddu budd-daliadau

Mae darparu hyfforddiant amgen i staff yr Adran Gwaith a Phensiynau neu bobl eraill sy'n gweinyddu budd-daliadau neu gymorth budd-daliadau yn ffordd arall o geisio newid y ffordd y mae budd-daliadau yn cael eu gweinyddu. Er enghraifft, bu Oxfam Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o dlodi seiliedig ar dystiolaeth i staff rheng flaen yr Adran yng Nghymru (Scullion et al., 2017: vii) ac mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Cymorth Cymru i roi hyfforddiant i bobl yn y sector tai a digartrefedd ar ddulliau seiliedig ar drawma, gyda'r nod o atal digartrefedd (Cymorth Cymru 2018).

Cynnig ychwanegiad at fudd-daliadau sy'n bodoli eisoes

Yn ddiweddar, cyflwynodd yr Alban y Taliad Atodol i'r Lwfans Gofalwyr, sef taliad ychwanegol ar gyfer y rheini sy'n hawlio Lwfans Gofalwr. Bwriadwyd ef fel ychwanegiad dros dro hyd nes y bydd Llywodraeth yr Alban yn disodli'r Lwfans Gofalwr â budd-dâl newydd (Cyngor ar Bopeth, dim dyddiad).

Yng Ngogledd Iwerddon, cyflwynwyd Taliadau Lles Atodol yn 2016 (ar gost o £501m) fel pecyn cymorth oedd â'r nod o ddadwneud yr effeithiau hynny o ddiwygio lles oedd yn cael eu hystyried y rhai mwyaf sylweddol. Bwriadwyd y rhain i ymdrin â rhai, neu'r cwbl, o'r colledion a gafodd pobl oherwydd y canlynol:

- Y Cap ar Fudd-daliadau;
- Rhoi terfyn amser ar y Lwfans Cymorth a Chyflogaeth Cyfrannol;
- Symud i Daliadau Annibyniaeth Personol yng nghyswllt y rheini oedd yn hawlio Lwfans Byw i'r Anabl. Hefyd, yng nghyswllt Gogledd Iwerddon yn unig, darparwyd tâl atodol i unrhyw un oedd yn hawlio Taliad Annibyniaeth Personol oherwydd anafiadau oedd yn gysylltiedig â'r Helyntion;
- Newidiadau i'r Lwfans Gofalwr, os yw'r sawl y mae'r unigolyn yn gofalu amdano/amdani yn aflwyddiannus o ran trosglwyddo o'r Lwfans Byw i'r Anabl i'r Taliad Annibyniaeth Personol;

- Meini Prawf Maint y Sector Cymdeithasol (y 'Treth Ystafell Wely' neu'r 'gosb danfeddiannu');
- Elfennau o'r Gronfa Gymdeithasol yn ôl disgrisiwn (a ddisodlwyd gan y Cynllun Cymorth yn ôl Disgrisiwn yng Ngogledd Iwerddon).

Ailgynllunio budd-daliadau sy'n bodoli eisoes neu greu budd-daliadau newydd

Yn yr Alban, disodlwyd y grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn â'r cynllun grant Best Start. Mae hwn yn rhoi arian ychwanegol i deuluoedd, nid yw'n cyfyngu ar faint o blant sy'n cael cymorth ym mhob teulu, ac mae'n rhoi mwy o amser i deuluoedd wneud cais (Social Security Scotland, 2019b).

Mae elfennau hyblyg i'r Credyd Cynhwysol yng Ngogledd Iwerddon, ac mae Llywodraeth yr Alban hefyd yn y broses o gyflwyno'r rhain fel 'Dewisiadau'r Alban' (Scottish Choices). Mae'r rhain yn rhoi dewis i bobl gael eu talu ddwywaith y mis yn hytrach na bob mis, talu'r elfen tai yn uniongyrchol i'r landlord yn hytrach na bod angen i'r hawlydd wneud hynny ei hun, a rhannu'r taliad rhwng y ddau unigolyn mewn cwpwl.

Gallai ailgynllunio budd-daliadau sy'n bodoli eisoes hefyd gynnwys newid y gofynion o ran cymhwysedd yng nghyswllt rhai budd-daliadau penodol, fel y mae ymgyrchwyr yn erbyn yr hyn a elwir y 'cymal treisio' yn y Credyd Treth Plant yn dadlau o'i blaid (Cymorth i Fenywod Cymru, 2017). Gallai hefyd gynnwys newid prosesau asesu yng nghyswllt rhai budd-daliadau penodol, fel y Taliad Annibyniaeth Personol.

4. Beth yw goblygiadau cyfreithiol ac ariannol y newidiadau y byddai angen eu gwneud a phaffactorau eraill y byddai angen eu hystyried?

Yn olaf, byddai angen archwilio goblygiadau pob dull newydd dichonol o weinyddu yn fanwl. Mae'r rhain yn cynnwys y goblygiadau cyfreithiol ac ariannol, ond hefyd mae angen ystyried ffactorau ehangach.

Beth yw'r goblygiadau cyfreithiol?

Bydd angen cael cyngor arbenigol er mwyn penderfynu pa rai o'r modelau posibl fyddai'n galw am newidiadau mewn deddfwriaeth. Mae'r deddfwriaeth fanwl sy'n berthnasol i nawdd cymdeithasol yn y DU yn golygu ei bod yn bosibl y byddai mân-newidiadau hyd yn oed, y gellid eu hystyried yn newidiadau gweinyddol yn hytrach na newidiadau mewn polisi, yn galw am newid deddfwriaethol er mwyn eu rhoi mewn grym yng Nghymru. Roedd angen creu

Fframwaith Ariannol newydd er mwyn i'r Alban sicrhau ei phwerau diweddar dros nawdd cymdeithasol (Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth EM, 2016), a bu'n rhaid sefydlu deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer yr holl Daliadau Lles Atodol a gyflwynwyd gan Ogledd Iwerddon o 2016 ymlaen. Fel y trafodwyd uchod, gan fod rhai budd-daliadau eisoes yn cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol yng Nghymru, byddai'n werth edrych i weld a yw'r gallu eisoes gan Lywodraeth Cymru i newid y ffordd y mae'r budd-daliadau hyn yn cael eu gweinyddu heb orfod gofyn am bwerau pellach gan Lywodraeth y DU.

Beth yw'r goblygiadau ariannol?

Gallai Llywodraeth Cymru elwa'n ariannol yn sgil newid y system nawdd cymdeithasol yng Nghymru. Er enghraifft, gallai olygu arbedion rhagamcanol mewn meysydd eraill o wariant Llywodraeth Cymru, er enghraifft, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Ifan a Siôn (2019) wedi modelu'r goblygiadau ariannol a fyddai'n codi pe bai Llywodraeth Cymru yn sicrhau rheolaeth dros yr un ystod o fudd-daliadau ag sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth yr Alban. Daethant i'r casgliad y gallai Llywodraeth Cymru elwa'n sylweddol o ddatganoli nawdd cymdeithasol. Ond, maent yn cydnabod y byddai hyn yn dibynnu ar y canlynol:

- Manylion y Fframwaith Ariannol a fyddai'n cael ei gytuno;
- Pwy sy'n talu costau gweinyddol unrhyw newidiadau;
- Pa mor ddibynadwy yw'r rhagolygon y seilir y cyfrifiadau arnynt, gan gynnwys ffactorau fel y cynnydd posibl o ran cyfraddau hawl wyr.

O dan Fframwaith Ariannol yr Alban, mae Llywodraeth yr Alban yn ysgwyddo'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â chynnydd mewn budd-daliadau sy'n seiliedig ar y galw amdanynt neu newidiadau demograffig (Senedd yr Alban, 2017: erthyglau 24-25, 31-33). Yn yr un modd, mae'n dwyn y costau sy'n codi yn sgil gostyngiadau mewn tan-hawlio, a'r costau sydd ynghlwm â chynllunio ac argraffu deunyddiau cyhoeddusrwydd sy'n gysylltiedig ag ymgyrchoedd o'r fath neu ar gyfer hysbysebu unrhyw newidiadau.

Mae'r costau gweinyddol sydd ynghlwm â sefydlu asiantaeth newydd, fel yr Asiantaeth Nawdd Cymdeithasol newydd yn yr Alban, yn sylweddol. O dan Fframwaith Ariannol yr Alban, roedd Llywodraeth y DU wedi darparu swm cychwynnol o £200m i dalu am y gwaith o roi'r holl bwerau newydd mewn grym (roedd nawdd cymdeithasol yn un ohonynt), a throsglwyddiad llinell sylfaen gwerth £66m i dalu am gostau gweinyddol parhaus. Fodd bynnag, er yr ystyriwyd bod y taliadau hyn yn 'setliad ariannol teg yng nghyd-destun yr hyblygrwydd ehangach yr oedd y Fframwaith Ariannol yn ei ddarparu', nid ydynt yn cynrychioli'r costau llawn sydd ynghlwm â'i weithredu a'i weinyddu (Senedd yr Alban, 2017: erthygl 51). Gan fod y broses o'i roi ar waith yn mynd rhagddo o hyd, a bod oedi wedi bod mewn perthynas ag ef, nid ydym yn gwybod beth fydd y gost i gyd gyda'i gilydd.

Mae Llywodraeth yr Alban yn gyfrifol am dalu unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol, yn ogystal â'r costau ychwanegol sydd ynghlwm â Scottish Choices, budd-daliadau newydd, a thaliadau atodol i fudd-daliadau (Senedd yr Alban a Llywodraeth EM 2016: erthyglau 33-34). Yn achos Scottish Choices, mae Senedd yr Alban wedi trosglwyddo arian, ymlaen llaw ac yn barhaus, i'r Adran Gwaith a Phensiynau at ddibenion gweithredu'r dewisiadau, gan gynnwys y canlynol:

- Swm cychwynnol gwerth £0.5m i dalu am newid systemau TG a hyfforddi staff i'w defnyddio;
- Costau gweithredu parhaus, gwerth oddeutu £115,000 rhwng mis Hydref 2017 a mis Rhagfyr 2018 at ddibenion prosesu achosion unigol (Senedd yr Alban, 2018: 15).

Yn gysylltiedig â hyn mae'r gost ddichonol o gysylltu data nawdd cymdeithasol os yw budd-daliadau yn cael eu talu gan gyrff gwahanol. Yn achos taliadau atodol i fudd-daliadau, os bydd un asiantaeth yn talu budd-dâl penodol ac asiantaeth arall yn talu'r tâl atodol, byddai angen i'r naill asiantaeth a'r llall gael mynediad at ddata'n ymwneud ag amgylchiadau cartref a manylion personol hawlwyr (Spicker 2015: 23).

Hefyd, mae'n werth cydnabod y byddai agor trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch y setliad datganoli yn galw am adnoddau gan Lywodraeth Cymru. Mae profiad yr Alban yn awgrymu y byddai angen staff ychwanegol (ac, o bosibl, galluoedd newydd) nid yn unig er mwyn paratoi ar gyfer trafod y setliad a chyfrannu at y trafodaethau hynny, ond yn rheolaidd ar ôl hynny (mae trafodaethau'n parhau yn yr Alban wrth iddi roi'r pwerau newydd mewn grym).

Yn olaf, os mai'r canlyniad a ddymunir yng Nghymru yw lliniaru ar y golled ariannol y mae teuluoedd yn ei hwynebu o dan y system bresennol, byddai llwyddo yn hyn o beth yn golygu mwy o gostau i Lywodraeth Cymru; nid yw'r gwaith modelu y mae Ifan and Sion (2019) wedi'i wneud yn cynnwys hyn. Mae'r IPPR yn awgrymu bod gallu llywodraethau datganoledig i dalu am rai o'r costau hyn o leiaf drwy ddatganoli ariannol - ac mae gan Lywodraeth Cymru'r gallu hwn erbyn hyn yn sgil pwerau newydd o ran codi trethi - yn 'ragofyniad hanfodol' yng nghyswllt datganoli nawdd cymdeithasol (Lodge a Trench, 2014: 3). Ond, mae gwaith blaenorol y mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi'i wneud yn awgrymu bod gallu Llywodraeth Cymru i godi referniw sylweddol drwy'r pwerau newydd hyn i godi trethi yn gyfyngedig, o gofio natur sylfaen dreth bresennol Cymru (Ifan a Poole, 2018).

Pa ffactorau eraill fyddai angen i ni eu hystyried?

Mae cymhlethdod y system nawdd cymdeithasol a sut mae'n rhyngweithio â swyddogaethau eraill y wladwriaeth (a'r system drethu yn enwedig) yn cynyddu'r **risg y bydd unrhyw newidiadau yn arwain at ganlyniadau anfwriadol**.

Er enghraifft, yng Ngogledd Iwerddon, gwelwyd bod cael taliadau Credyd Cynhwysol bob pythefnos yn well i bobl yn y tymor hir, ond eu bod yn gallu cael effaith negyddol ar bobl yn ystod wythnosau cyntaf eu hawliad: 'Mae Hawlwyr yn cael eu taliad cyntaf ymhen pum wythnos ar ôl cyflwyno eu hawliad am Gredyd Cynhwysol. Ym Mhrydain Fawr, bydd hawlwr yn cael y swm misol llawn ar y pwynt hwn. Ond, bydd hawlwr yng Ngogledd Iwerddon yn cael 50% o'u swm misol llawn ar ôl pum wythnos, ac yn cael yr ail daliad pythefnos ar ôl hynny (Yr Adran Cymunedau, 2019b: erthygl 48).

Mae newid y trefniadau gweinyddu yng nghyswllt un budd-dâl yn gallu rhyngweithio â budd-daliadau (a gedwir yn ôl) eraill. Er enghraifft, mae rhai budd-daliadau yn gweithredu fel 'pasbort' i fudd-daliadau eraill, a gallai taliadau atodol i un budd-dâl effeithio ar gymhwysedd yr unigolyn dan sylw i gael rhai eraill. Byddai'n rhaid ystyried unrhyw effeithiau o ran rhyngweithio ac, o bosib, lliniaru ar yr effeithiau hynny. O dan y Fframwaith Ariannol yn yr Alban, mae'n rhaid i fudd-daliadau newydd neu daliadau atodol sy'n cael eu darparu gan Lywodraeth yr Alban roi incwm ychwanegol i bobl, ac felly efallai na fydd yn effeithio ar eu hawl i gael budd-daliadau eraill (Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU, 2016: erthygl 89).

Yn yr un modd, bydd yn bwysig ystyried unrhyw ryngweithio â'r system drethu. Os bydd unrhyw daliadau atodol neu fudd-daliadau newydd yn drethadwy, gall hyn effeithio'n sylweddol ar faint o arian y bydd hawlwr yn ei gael. Er enghraifft, roedd Gogledd Iwerddon wedi bwriadu darparu taliadau atodol i weithwyr ar gyflog isel, ond byddai CThEM wedi trin y rhain fel incwm trethadwy, sy'n golygu y byddai bron i hanner yr arian yr oedd Llywodraeth Gogledd Iwerddon yn ei dalu i ariannu'r budd-daliadau hyn yn mynd yn ôl i CThEM ar ffurf trethi, ac efallai y byddai'r bobl dan sylw ar eu colled o ran Credydau Treth Gwaith. O ganlyniad, ni weithredwyd y taliadau hyn (yr Adran Cymunedau 2019a 13).

Byddai cyflwyno unrhyw newidiadau gam wrth gam (ynghyd â throsglwyddo cyllid yn raddol ar yr un pryd), fel sy'n digwydd yn yr Alban ar y funud, yn un ffordd o 'ddadrisgio'r broses (Senedd yr Alban 2017: erthygl 9).

Bydd angen rhoi cyfrif am allu unrhyw asiantaeth newydd neu asiantaeth sy'n bodoli eisoes i ymdopi â **galw ansicr, sy'n newid o hyd, am wasanaethau** – yn enwedig y posibilrwydd y ceir mewnlifiad o ymholiadau a hawliadau newydd sy'n gysylltiedig â'r newid i fudd-daliadau. Dyma her a wynebodd yr Alban yn sgil lansio'r grant Best Start: Yn y tri mis cyntaf, roedd Social Security Scotland wedi derbyn 16,490 o geisiadau am ei grant Best Start newydd (Social Security Scotland 2019a: 2). Dylid hefyd ystyried y goblygiadau i wasanaethau cynghori gan fod newidiadau yn debygol o arwain at geisiadau ychwanegol am wybodaeth a chymorth.

Dylid hefyd ystyried goblygiadau tymor hwy'r hyn mae rhai yn ei alw yn **yr undeb cymdeithasol**. Beth rydym yn ei olygu wrth ddweud hyn yw'r goblygiadau o ran cyfuno a rhannu risgiau ac adnoddau ar draws y DU. Mae angen gwneud mwy o waith er mwyn

archwilio'n llawn a fyddai unrhyw ddatganoli pellach yng nghyswllt nawdd cymdeithasol yn effeithio ar yr undeb cymdeithasol, ac os felly, sut. Un dimensiwn fydd yr effaith bosibl ar anghydraddoldeb yng Nghymru ac ar draws y DU. Mae damcaniaethau sy'n anghyson â'i gilydd ynghylch a ydi datganoli ariannol yn cynyddu anghydraddoldeb - er enghraifft, drwy leihau aildrosbarthu rhyngranbarthol (Kessler a Lessmann, 2010) - neu'n lleihau anghydraddoldeb, er enghraifft drwy gyfateb polisïau'n well i anghenion a dewisiadau dinasyddion (Oates, 1972). Cymysg hefyd yw'r dystiolaeth ffeithiol am wledydd OECD, gyda rhai yn awgrymu bod datganoli ariannol, at ei gilydd, yn lleihau cydraddoldeb (Sorens, 2014; Bartolini, Stossberg, a Blöchliger, 2016), ac eraill ei fod yn cael effaith amwys a allai fod yn negyddol ar anghydraddoldeb (Dougherty ac Akgun, 2018), yn dibynnu ar y cyd-destun a sut y gweithredir datganoli. Byddai angen cynnal dadansoddiad pellach, penodol i Gymru, i ddeall effaith ddichonol datganoli ariannol ar Gymru.

Yn olaf, mae unrhyw ddatganoli pwerau pellach yn debygol o ysgogi **newid yn nisgwyliadau'r cyhoedd** o Lywodraeth Cymru. Un elfen bosibl fyddai pwysau i gyflwyno mwy o newidiadau yng nghyswllt nawdd cymdeithasol. Yn yr Alban, roedd y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant wedi llobio Llywodraeth yr Alban i ychwanegu £5 yr wythnos at y budd-dâl plant drwy ei ymgyrch 'Give me 5'; mae'r Grŵp yn ystyried ei fod wedi bod yn ddylanwadol yng nghyswllt cyhoeddiad Llywodraeth yr Alban yn ddiweddar ynghylch Taliad Plant newydd yn yr Alban (Graham 2019).

Casgliadau

Mae'r adolygiad cyflym hwn o dystiolaeth yn tynnu sylw at nifer o ystyriaethau pwysig wrth asesu a ellid datganoli rhai agweddau ar weinyddu nawdd cymdeithasol i Gymru a sut y dylid gwneud hynny. Rydym yn awgrymu y dylai'r asesiad hwn ymdrin â phedwar mater allweddol yn eu tro, sef:

- 1 Pa ganlyniadau a fwriedir wrth ddatganoli gweinyddu nawdd cymdeithasol?**
Gellir defnyddio hyn i lywio penderfyniadau ynghylch pa newidiadau y gellir eu gwneud, ac y gellir eu mynegi drwy set o egwyddorion craidd sy'n ategu dull gweithredu Cymru yng nghyswllt nawdd cymdeithasol.
- 2 Pa agweddau ar y trefniadau presennol ar gyfer gweinyddu nawdd cymdeithasol sy'n ein hatal rhag cyflawni'r amcanion hyn?** Ar sail y canlyniadau o ddiddordeb yng Nghwestiwn 1, dylid nodi'r budd-daliadau sydd o fewn y cwmpas ar gyfer diwygio cyn cynnal asesiad o sut y mae'r budd-daliadau hynny yn cael eu gweinyddu ar hyn o bryd.
- 3 Sut y gellid newid yr agweddau hynny ar nawdd cymdeithasol er mwyn cyflawni'r amcanion hyn?** Gellir newid agweddau ar y system mewn nifer o ffyrdd: trwy fabwysiadu dull mwy effeithiol a chyson o weinyddu; rhoi cymorth amgen neu estynedig i hawlwr; cael mwy o bobl i hawlio budd-daliadau; darparu hyfforddiant amgen neu estynedig i'r rheini sy'n gweinyddu budd-daliadau; cyflwyno taliadau atodol i fudd-daliadau presennol; ac ailgynllunio budd-daliadau sy'n bodoli eisoes neu greu rhai newydd.
- 4 Beth yw goblygiadau cyfreithiol ac ariannol y newidiadau y byddai angen eu gwneud a pha ffactorau eraill y byddai angen eu hystyried?** Ochr yn ochr â'r goblygiadau cyfreithiol ac ariannol o ddatganoli agweddau ar weinyddu nawdd cymdeithasol, ymysg y ffactorau eraill a ddylai gael eu hystyried yn unrhyw asesiad mae: y risg o ganlyniadau anfwriadol, galw ansicr, sy'n newid o hyd, am wasanaethau, yr effaith ar gyfuno a rhannu risgiau ac adnoddau ar draws y DU ('undeb cymdeithasol') a newidiadau posibl yn nîsgwyliadau'r cyhoedd o Lywodraeth Cymru.

Rydym yn gobeithio y bydd y dystiolaeth a gasglwyd yn yr adolygiad hwn yn ddefnyddiol o ran fframio ein disgwyliadau yng nghyswllt y broses o ddatganoli gweinyddu budd-daliadau yng Nghymru, a'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â gwneud hyn.

Cydnabyddiaeth

Mae ein diolch yn fawr i arbenigwyr yng Nghymru, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr y mae eu sylwadau wedi gweithredu fel sail ar gyfer yr adolygiad hwn, ac i'n cydweithwyr, Steve Martin, Suzanna Nesom, Andrew Connell a Megan Park am eu cyfraniad hwythau. Rhai'r awdur yw unrhyw gamgymeriadau neu hepgoriadau.

Cyfeiriadau

Bartolini, D., Stossberg, S., a Blöchliger, H. (2016). Fiscal Decentralisation and Regional Disparities. **Economics Department Working Papers No. 13330**. OECD.

Sefydliad Bevan. (2016). **Making welfare work for Wales: Should benefits for people of working age be devolved?** Codwyd o: <https://www.bevanfoundation.org/publications/making-welfare-wales-benefits-people-working-age-devolved/>.

Sefydliad Bevan. (2018). **Universal Credit: Implications for devolved policies and services**. Codwyd o <https://41ydv1cuyvlonsm03mpf21pub-wpengine.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/2018/11/UC-report-final.pdf>.

Sefydliad Bevan. (2019). **Back to school? Local variations in help with costs of school meals and uniforms**. Codwyd o <https://www.bevanfoundation.org/publications/back-to-school-local-variations-in-help-with-costs-of-school-meals-and-school-uniforms/>.

Cyngor ar Bopeth (dim dyddiad). **Carer's Allowance Supplement**. Codwyd o <https://www.citizensadvice.org.uk/scotland/benefits/sick-or-disabled-people-and-carers/carers-allowance/carers-allowance-supplement/>.

Cyngor ar Bopeth (2019). **Advice Trends April 2019**. Codwyd o <https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/difference-we-make/advice-trends/advice-trends/advice-trends-201820191/>.

Cymorth Cymru. (2018). **Introducing the PATH training programme**. Codwyd o https://www.cymorthcymru.org.uk/files/9315/1560/0749/Cymorth_PATH_training_programme.pdf.

Davies, N. a Furlong, C.. (2019). **Deeds not words: Review of gender equality in Wales (Phase Two)**. Chwarae Teg. Codwyd o <https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2019/09/Deeds-Not-Word-full-report.pdf>.

Yr Adran Cymunedau (2019a). **Review of welfare mitigation schemes**. Codwyd o <https://www.communities-ni.gov.uk/system/files/publications/communities/dfc-review-of-welfare-mitigation-schemes-2019.pdf>.

Yr Adran Cymunedau (2019b). **Written evidence from the Department for Communities (WEL0037): Submission to the Welfare policy in Northern Ireland Inquiry**. Pwyllgor

Materion Gogledd Iwerddon Codwyd o

<http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/northern-ireland-affairs-committee/welfare-policy-in-northern-ireland/written/102740.html>.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2018a). **Universal Credit Full Service Survey**. Codwyd o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/714842/universal-credit-full-service-claimant-survey.pdf.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2018b). **Income-Related Benefits: Estimates of Take-up**. Codwyd o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/757268/income-related-benefits-estimates-of-take-up-2016-17.pdf.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2019). **Guidance: Alternative Payment Arrangements**. Codwyd o <https://www.gov.uk/government/publications/universal-credit-and-rented-housing--2/alternative-payment-arrangements>.

Dougherty, S. ac Akgun, O. (2018). Globalisation, decentralisation and inclusive growth. Yn Kim, J. a Dougherty, S. (gol.) **Fiscal Decentralisation and Inclusive Growth**. OECD Fiscal Federalism Studies. Codwyd o <http://www.oecd.org/tax/federalism/fiscal-decentralisation-and-inclusive-growth.pdf>.

Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol (2019a). **Budd-daliadau yng Nghymru: Opsiynau i'w cyflawni'n well** Senedd. Codwyd o <https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12832/cr-ld12832%20-e.pdf>

Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol (2019b). **Ymchwiliad i Fudd-daliadau yng Nghymru Opsiynau i'w Cyflawni'n Well – Sesiwn Dystiolaeth 6**. Senedd. 09:01:45-10:00 Codwyd o <http://record.assembly.wales/Committee/5488#A51167>.

Ghelani, D. (2016). **What do good Local Welfare Support and Conditionality Schemes look like?** Policy in Practice Blog. Codwyd o <http://policyinpractice.co.uk/what-do-good-local-welfare-support-conditionality-schemes-look-like/>.

Graham, A. (2019). **New £10 Scottish Child Payment a game-changer – and a pointer to what's needed across the UK**. Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant Codwyd o <https://cpag.org.uk/news-blogs/news-listings/new-%C2%A310-scottish-child-payment-game-changer-%E2%80%93-and-pointer-what%E2%80%99s-needed>.

Hazell, R. (2015). **Devolution and the Future of the Union**. The Constitution Unit, UCL. Codwyd o <https://www.ucl.ac.uk/constitution-unit/sites/constitution-unit/files/163.pdf>.

Hobson, F. (2019). **3 principles we want to see integrated into the benefits system: Lessons learned from Citizens Advice volunteers and staff**. Cyngor ar Bopeth Codwyd o <https://wearecitizensadvice.org.uk/3-principles-we-want-to-see-integrated-into-the-benefits-system-707e41ece4ae>.

Hutt, J. (2019). **Datganiad Ysgrifenedig: Gwasanaethau Cyngori**. Llywodraeth Cymru. Codwyd o https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-gwasanaethau-cyngori-0?_ga=2.91169758.518024936.1575015111-974122360.1542881928https://gov.wales/written-statement-advice-services-0.

Ifan, G. a Sion, C. (2019). **Devolving Welfare: How well would Wales fare?** Dadansoddi Cyllid Cymru, Canolfan Llywodraethiant Cymru Codwyd o https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0010/1476352/devolving_welfare_final_2.pdf.

Ifan, G., a Poole, E. G. (2018). **The Welsh tax base: Risks and opportunities after fiscal devolution**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru Codwyd o https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2018/07/The-Welsh-Tax-Base_WCPP-Final-180627.pdf.

Kessler, A., a Lessmann, C. (2010). **Interregional Redistribution and Regional Disparities: How Equalization Does (Not) Work**. **CEPR Discussion Papers 8133**. Centre for Economic Policy Research. Codwyd o https://cepr.org/active/publications/discussion_papers/dp.php?dpno=8133#.

Lister, R. (2013). **Benefit cuts: how the language of welfare poisoned our social security**. Guardian. Codwyd o <https://www.theguardian.com/commentisfree/2013/apr/01/language-welfare-social-security>.

Lodge, G., a Trench, A. (2014). **Devo more and welfare: Devolving benefits and policy for a stronger union**. IPPR. Codwyd o https://www.ippr.org/files/images/media/files/publication/2014/03/Devo-more-and-welfare_Mar2014_11993.pdf.

Northern Ireland Act 1998. Codwyd o <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/47>.

Oates, W. E. (1972). **Fiscal Federalism**. Harcourt Brace Jovanovich: New York, NY.

Opinion Research Services. (2019). **Understanding social housing evictions in Wales. Llywodraeth Cymru.** Codwyd o https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/understanding-social-housing-evictions-in-wales_0.pdf.

Parken, A. (2018). **Putting equality at the heart of decision-making – Gender Equality Review (GER) Phase One: International Policy and Practice.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru Codwyd o <https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2018/07/Putting-equality-at-the-heart-of-decisionmaking-corrected-final.pdf>.

Scotland Act 2016. Codwyd o <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2016/11/contents/enacted>.

Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth EM. (2016). **The agreement between the Scottish Government and the United Kingdom Government on the Scottish Government's fiscal framework.** Codwyd o <https://www.gov.scot/publications/agreement-between-scottish-government-united-kingdom-government-scottish-governments-fiscal/>.

Llywodraeth yr Alban. (2017). **The Universal Credit (Claims and Payments) (Scotland) Regulations 2017.** Codwyd o <http://www.legislation.gov.uk/ssi/2017/227/made>.

Senedd yr Alban (2017). **Social Security (Scotland) Bill Financial Memorandum.** Codwyd o [https://www.parliament.scot/S5_Bills/Social%20Security%20\(Scotland\)%20Bill/SPBill18FMS052017.pdf](https://www.parliament.scot/S5_Bills/Social%20Security%20(Scotland)%20Bill/SPBill18FMS052017.pdf).

Senedd yr Alban (2018). **Social Security Committee: Thursday 22 November 2018.** Codwyd o <http://www.parliament.scot/parliamentarybusiness/report.aspx?r=11801&mode=pdf>.

Scullion, L., Wilding, M., Jones, K., a Martin, P. (2017). **Evaluation of DWP & Oxfam Livelihoods Training Project: Final report.** Oxfam, Department for Work and Pensions, and Sustainable Housing and Urban Studies Unit (University of Salford, Manchester). Codwyd o <https://oxfamlibrary.openrepository.com/bitstream/handle/10546/620306/er-livelihoods-project-evaluation-dwp-oxfam-031117-en.pdf?sequence=7>.

Shelter Cymru. (2013). **What the people of Wales expect of advice and information services and how to ensure accessibility for all.** Adroddiad ymchwil, Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol. Codwyd o <https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2015/02/Citizens-expectations-full-report.pdf>.

Comisiwn Silk (2014). **Empowerment and Responsibility: Legislative Powers to Strengthen Wales**. Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru. Codwyd o <https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140605075122/http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/>.

Social Security Scotland. (2019a). **Our Charter: What you can expect from the Scottish Government and Social Security Scotland**. Llywodraeth yr Alban. Codwyd o <https://www.gov.scot/publications/charter/>.

Social Security Scotland. (2019b). **Best Start Grant: high level statistics to 28 February 2019**. Llywodraeth yr Alban. Codwyd o <https://www2.gov.scot/Resource/0054/00547186.pdf>.

Social Security (Scotland) Act 2018. Codwyd o <http://www.legislation.gov.uk/asp/2018/9/contents/enacted>.

Somerville, S. MSP. (28 Chwefror 2019). **Devolution of benefits: Ministerial statement**. Llywodraeth yr Alban. Codwyd o <https://www.gov.scot/publications/devolution-of-benefits-ministerial-statement/>.

Sorens, J. (2014). Does Fiscal Federalism Promote Regional Inequality? An Empirical Analysis of the OECD, 1980-2005. **Regional Studies**. 48, 2: 239-253.

Spicker, P. (2015). The devolution of social security benefits in Scotland: Comisiwn Smith **Journal of Poverty and Social Justice**. 23, 1: 17-28.

Ystadegau Cymru. (2017). **Hawlwyr budd-daliadau diweithdra yn ôl gwlad ym Mhrydain Fawr a chwarter** Llywodraeth Cymru. Codwyd o <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Key-Benefit-Claimants>.

Taylor-Collins, E. a Nesom, S. (2019). **Cydraddoldeb Rhywiol Learning from Nordic nations – Gender Equality Review Phase Two**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru Codwyd o <https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/cydraddoldeb-rhywiol-dysgu-gwersi-gan-wledydd-nordig/>.

Llywodraeth y DU (2013). **The Universal Credit, Personal Independence Payment, Jobseeker's Allowance and Employment and Support Allowance (Claims and Payments) Regulations 2013**. Codwyd o <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2013/380/contents/made>.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Codwyd o <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted>.

Llywodraeth Cymru. (2018). **Improving people's lives through digital technologies: Digital Inclusion Progress Report and Forward Look 2018**. Codwyd o <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/digital-inclusion-framework-report-and-forward-look.pdf>.

Llywodraeth Cymru. (2019). **Analysis of the impact of the UK Government's welfare reforms on households in Wales**. Codwyd o <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/impact-of-welfare-reform-on-households-in-wales.pdf>.

Awdurdod Cyllid Cymru (2018). **Ein Siarter: Cydweithio i greu system drethi deg ar gyfer Cymru..** Codwyd o <https://llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru/acc-siarter?>.

Cymorth i Ferched Cymru (2017). **Welsh Women's Aid Statement on UK Government's tax credit 'rape clause'**. Codwyd o <https://www.welshwomensaid.org.uk/2017/04/welsh-womens-aid-statement-uk-governments-tax-credit-rape-clause/>.

Manylion yr Awduron

Mae **Emma Taylor-Collins** yn Uwch Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Dan Bristow yw Cyfarwyddwr Polisi ac Ymarfer Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

info@wcpp.org.uk

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored